Archwiliad Asiant Rhentu Doeth Cymru
Holiadur Cyn-Archwilio

Cyfeirnod Archwilio:

Enw'r Asiant:

Dyddiad Cyflwyno:

Y Dyddiad Olaf i Ymateb:

Mae'n hanfodol eich bod yn rhoi cymaint o wybodaeth, tystiolaeth a dogfennau â phosibl i esbonio arferion gwaith eich asiantaeth yn ogystal â'i chydymffurfiaeth ag:

- Amodau Trwydded,
- Cod Ymarfer Landlordiaid ac Asiantau sydd wedi'u Trwyddedu, a
- Gofynion Deddfwriaethol.

Gallai methu â rhoi gwybodaeth glir, tystiolaeth a'r dogfennau gofynnol effeithio ar y radd archwilio a ddyfernir i'ch asiantaeth.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /

This document is available in English

GWYBODAETH ASIANT			
TREFNIADAU BUSNES			
Dewiswch yr endid cyfreithiol sy'n berthnasol i strwythur busnes eich asiantaeth:	Unigolyn / Unigolyn yn masnachu fel	☐	
	Partneriaeth / Partneriaeth yn masnachu fel	☐	
	Cwmni Cyfyngedig / Cwmni Cyfyngedig yn masnachu fel	☐	
	Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC) / PAC yn masnachu fel	☐	
	Elusen / Elusen yn masnachu fel	☐	
	Ymddiriedolaeth / Ymddiriedolaeth yn masnachu fel	☐	
	Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) / LCC yn masnachu fel	☐	
Rhestrwch gyfeiriadau'r canghennau yng Nghymru rydych yn cynnal gweithgareddau gosod a / neu reoli ohonynt:	Cyfeiriadau Gohebiaeth / Cangen / Swyddfa Gofrestredig	A yw'r gangen hon yn cynnal Gweithgareddau Gosod a / neu Reoli?	
		Ydy	Nac ydy
		☐	☐
		☐	☐
		☐	☐
		☐	☐
		☐	☐
		☐	☐

Os ydych yn defnyddio is-gontractwyr i gwblhau unrhyw weithgareddau gosod a / neu reoli, rhestrwch yr is-gontractwyr rydych yn eu defnyddio: *Gall gweithgareddau gynnwys geirdaon, credyd, gwiriadau stocrestr, archwiliadau eiddo, ac ati.*	Enw'r Is-gontractwr	Disgrifiwch y Gweithgareddau Gosod a / neu Reoli a Gwblheir
Rhestrwch yr holl ddulliau talu sydd ar gael i'ch defnyddwyr gwasanaeth (sy'n cynnwys darpar denantiaid (deiliad contract), tenantiaid a landlordiaid):		
A ydych chi wedi cofrestru ar gyfer TAW? *Rhagor o wybodaeth: Cofrestru ar gyfer TAW*	Ydw ☐ Os ydych, nodwch eich rhif cofrestru TAW:	Nac ydw ☐ Os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, esboniwch yma:
A ydych chi wedi cofrestru gyda CThEF ar gyfer goruchwyliaeth gwyngalchu arian? *Rhagor o wybodaeth: Goruchwyliaeth Gwyngalchu Arian*	Ydw ☐ Os ydych, nodwch eich rhif cofrestru CThEF:	Nac ydw ☐ Os nad ydych wedi cofrestru gyda CThEF ar gyfer goruchwyliaeth gwyngalchu arian, esboniwch yma:

	Ydw	Nac ydw
A ydych chi wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG)? *Rhagor o wybodaeth: Gwefan SCG*	☐ Os ydych, rhowch fanylion cofrestru Swyddfa eich Comisiynydd Gwybodaeth: Cyfeirnod y Cofrestriad: Enw Cofrestredig y Rheolydd Data: Dyddiad Dod i Ben y Cofrestriad:	☐ Os nad ydych, esboniwch yma:

YN FWRIADOL WAG
EWCH I'R DUDALEN NESAF

MARCHNATA A HYSBYSEBU		
A oes gwefan gennych?	Oes	Nac oes
	☐	☐
	Os oes, rhowch yr URL / cyfeiriad gwe:	
A ydych chi'n hysbysebu ar lwyfannau trydydd parti? (RightMove, Zoopla, ac ati.)	Ydw	Nac ydw
	☐	☐
	Os ydych, rhowch fanylion yr holl lwyfannau a ddefnyddir, gan gynnwys yr URL / cyfeiriad gwe:	
LOGOS		
Os ydych yn defnyddio logos trydydd partïon ar eich gwefan neu mewn unrhyw ddogfennau, nodwch y logos a ddefnyddir a rhowch dystiolaeth o'r caniatâd i chi eu defnyddio:		
e.e., os ydych yn defnyddio logo corff proffesiynol ar gyfer asiantau gosod a rheoli, rhowch dystiolaeth o'ch aelodaeth		

GWYBODAETH STAFF				
Enw'r Aelod o Staff	Cynnal Gweithgareddau Gosod a / neu Reoli?		Rhif Cyfrif Defnyddiwr Rhentu Doeth Cymru yr Aelod o Staff (#P1)	Dyddiad Dechrau Gweithgareddau Gosod a / neu Reoli
	Ydy	Nac ydy		
	☐	☐		
	☐	☐		
	☐	☐		
	☐	☐		
	☐	☐		
	☐	☐		
	☐	☐		
	☐	☐		
	☐	☐		
	☐	☐		
	☐	☐		
	☐	☐		
	☐	☐		

STATWS CYMWYS A PHRIODOL		
A yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol i chi, y trwyddedai, unrhyw aelod o staff, neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â chi neu a arferai fod yn gysylltiedig â chi (boed ar sail bersonol, ar sail gwaith neu ar sail arall sy'n berthnasol):		
(a) wedi cyflawni trosedd sy'n cynnwys: i. twyll neu anonestrwydd arall, ii. trais, arfau tanio neu gyffuriau, iii. unrhyw drosedd a restrir yn Atodlen 3 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (troseddau sy'n destun gofynion hysbysu),	Ydy ☐	Nac ydy ☐
	Os ydych wedi ateb 'ydy', rhowch wybodaeth ategol i esbonio'r amgylchiad: (*e.e. enw, euogfarn, dyddiad euogfarnu, y llys a fynychwyd, unrhyw amgylchiadau esgusodol, ac ati)*	
(b) wedi cyflawni aflonyddu neu wahaniaethu anghyfreithlon ar sail unrhyw nodwedd sy'n nodwedd warchodedig dan adran 4 Deddf Cydraddoldeb 2010, neu wedi achosi i berson arall ddioddef yn groes i'r Ddeddf honno, wrth gyflawni neu mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw fusnes, neu	Ydy ☐	Nac ydy ☐
	Os ydych wedi ateb 'ydy', rhowch wybodaeth ategol i esbonio'r amgylchiad: *(e.e. enw, euogfarn, dyddiad euogfarnu, y llys a fynychwyd, unrhyw amgylchiadau esgusodol, ac ati)*	
(c) wedi torri unrhyw ddarpariaeth yn y gyfraith sy'n gysylltiedig â thai neu landlord a thenant (deiliaid contract), fel: i. Troi tenant (deiliaid contract) allan yn anghyfreithlon, ii. Wedi cael gwrthod trwydded Tŷ Amlfeddiannaeth neu drwydded arall dan Ddeddf Tai 2004, iii. Wedi cael trwydded wedi'i diddymu am dorri unrhyw amodau dan Ddeddf Tai 2004, iv. Wedi bod yn destun Gorchymyn Rheoli dan Ddeddf Tai 2004, v. Wedi methu â chydymffurfio â Hysbysiad Tai (angen gwaith) a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol, vi. Wedi bod yn destun cwynion gan denantiaid (deiliaid contract) neu ffynonellau eraill, yn ymwneud â thoriadau difrifol neu barhaus o amodau trwydded dan Ddeddf Tai 2004.	Ydy ☐	Nac ydy ☐
	Os ydych wedi ateb 'ydy', rhowch wybodaeth ategol i esbonio'r amgylchiad: *(e.e. enw, euogfarn, dyddiad euogfarnu, y llys a fynychwyd, math y drwydded, y rheswm dros wrthod/diddymu, unrhyw amgylchiadau esgusodol, ac ati)*	

ADRAN 1 - GOFYNION RHENTU DOETH CYMRU			
Rhif y Cwestiwn	Cwestiwn	Ateb	Esboniad
Deddf Tai (Cymru) 2014 - Dyletswydd i Ddiweddaru Gwybodaeth: Diweddaru Manylion Trwydded			
1.1 (**)	A yw eich holl fanylion ar eich Cyfrif Rhentu Doeth Cymru yn gyfredol?	Oes ☐	Os ydynt, rhowch y weithdrefn/gweithdrefnau sydd ar waith gennych i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'ch trwydded yn cael eu diweddaru o fewn 28 diwrnod i'r newid?
		Nac ydynt ☐	Os nad ydynt, esboniwch yma:
Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded: Gofyniad Person Cymwys a Phriodol			
1.2 (**)	A ydych chi'n ymwybodol bod yn rhaid i chi ddatgelu unrhyw euogfarn i Rhentu Doeth Cymru o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad euogfarnu, yn unol ag amodau eich trwydded? *Mae euogfarnau'n berthnasol i chi, y trwyddedai, unrhyw aelod o staff, neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â chi neu a arferai fod yn gysylltiedig â chi (boed ar sail bersonol, ar sail gwaith neu ar sail arall sy'n berthnasol).* *Fel arfer nid oes angen datgan troseddau gyrru nac unrhyw euogfarnau wedi'u disbyddu (yn unol â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974).*	Ydw ☐	Os ydych, sut byddech chi'n sicrhau bod unrhyw euogfarnau yn cael eu datgan i Rhentu Doeth Cymru o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad euogfarnu?
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:

Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded: Mesurau Diogelu Busnes			
1.3 (***/**)	A oes gennych yr holl fesurau diogelu busnes gofynnol yn enw'r trwyddedai? • Diogelu Arian Cleientiaid • Yswiriant Indemniad Proffesiynol • Aelodaeth Cynllun Gwneud Iawn **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol? **Eitem 1: Mesurau Diogelu Busnes**	Ydw ☐ Nac ydw ☐	Os oes, rhowch fanylion a thystiolaeth i ddangos lle mae gwybodaeth am eich mesurau diogelu busnes yn cael ei harddangos, yn yr holl fangre lle cynhelir gweithgareddau gosod a rheoli ac ar eich gwefan: Os nad ydych, esboniwch yma:
Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded: Rhwymedigaethau Landlordiaid Cleient			
1.4 (**)	A ydych chi'n rhoi gwybod i landlordiaid cleientiaid am eu rhwymedigaethau cyfreithiol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wrth eu cyfarwyddo? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol? **Eitem 2: Rhwymedigaeth Gyfreithiol Landlord Cleient i Gofrestru / Cael Trwydded**	Ydw ☐ Nac ydw ☐	Os ydych, esboniwch eich gweithdrefn a rhowch dystiolaeth ohoni: Os nad ydych, esboniwch yma:

Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded: Cofrestru Landlord Cleient a Chysylltu Asiantau			
1.5 (**)	A ydych chi'n sicrhau bod landlordiaid ac eiddo yn cael eu cofrestru a'u cysylltu â'ch cyfrif asiant Rhentu Doeth Cymru ar gyfarwyddyd y landlord i ddechrau gweithgareddau gosod a rheoli?	Ydw ☐	Os ydych, esboniwch y weithdrefn:
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:
Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded: Hysbysiad Landlord Anghofrestredig			
1.6 (**)	A oes gennych weithdrefn i roi gwybod i Rhentu Doeth Cymru am landlordiaid sydd heb gofrestru o fewn 12 wythnos i'ch cytundeb i reoli eiddo rhent?	Oes ☐	Os oes, esboniwch y weithdrefn:
		Nac oes ☐	Os nad oes, esboniwch yma:
Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded: Rhestr Eiddo Rheoledig (RhERh)			
1.7 (**)	A ydych chi'n lanlwytho cofnod cyfredol o'ch holl eiddo a reolir, gan gynnwys manylion landlordiaid i'ch Cyfrif Asiant Rhentu Doeth Cymru bob blwyddyn? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol? **Eitem 3: Rhestr Eiddo Rheoledig (RhERh) Gyfredol**	Ydw ☐	Os ydych, rhowch fanylion y broses a ddefnyddiwch i sicrhau bod yr RhERh yn cael ei lanlwytho bob blwyddyn?
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:

Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded: Hyfforddiant i Staff			
1.8 (**)	A ydych chi'n sicrhau bod pob dechreuwr newydd yn cwblhau'r hyfforddiant asiant gofynnol a gymeradwyir gan Rhentu Doeth Cymru o fewn 3 mis iddo ddechrau gweithgareddau gosod a / neu reoli yng Nghymru?	Ydw ☐	Os ydych, rhowch fanylion eich proses o sicrhau bod dechreuwyr newydd yn cwblhau'r hyfforddiant gofynnol o fewn 3 mis iddynt ddechrau gweithgareddau gosod a / neu reoli:
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:
Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded: Hyfforddiant i Is-gontractwyr			
1.9 (*)	A ydych chi'n sicrhau bod unrhyw is-gontractwyr a benodir sy'n cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn bodloni safonau Rhentu Doeth Cymru ar gyfer hyfforddiant a chydymffurfiaeth â 'Chod Ymarfer Landlordiaid ac Asiantau sydd Wedi'u Trwyddedu' a holl amodau perthnasol eraill eich trwydded?	Ydw ☐	Os ydych, rhowch dystiolaeth ar gyfer pob is-gontractwr a benodir:
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:

Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded: Gweithdrefn Gwyno			
1.10 (**)	A oes gennych Weithdrefn Gwyno ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth (sy'n cynnwys darpar denantiaid (deiliaid contract), tenantiaid (deiliaid contract) a landlordiaid? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol? **Eitem 4: Gweithdrefn Gwyno**	Oes ☐	Os oes, rhowch fanylion sut mae hon yn cael ei chyfleu ac esboniwch sut rydych yn sicrhau bod eich defnyddwyr gwasanaeth yn ymwybodol o'u hawl i wneud iawn gyda chynllun gwneud iawn a gymeradwyir gan Rhentu Doeth Cymru:
		Nac oes ☐	Os nad oes, esboniwch yma:
Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded: Canllawiau Brand Rhentu Doeth Cymru			
1.11 (**)	A ydych chi'n defnyddio logo Rhentu Doeth Cymru ar gyfer marchnata yn unol â'r Canllawiau Brand?	Ydw ☐	Os ydych, rhowch fanylion ble mae logo Rhentu Doeth Cymru yn cael ei ddefnyddio:
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth			
1.12 (*)	A oes Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gennych ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth (sy'n cynnwys darpar denantiaid (deiliaid contract), tenantiaid a landlordiaid)? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol? **Eitem 5: Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**	Oes ☐ Nac oes ☐	Os nad oes, esboniwch yma:

YN FWRIADOL WAG
EWCH I'R DUDALEN NESAF

ADRAN 2 - ARDYSTIADAU A CHADW COFNODION			
Rhif y Cwestiwn	Cwestiwn	Ateb	Esboniad
Tystysgrifau Perfformiad Ynni			
2.1 (**)	A oes Tystysgrif Perfformiad Ynni neu eithriad cofrestredig dilys gennych ar gyfer pob eiddo rydych yn ei osod a / neu'n ei reoli yng Nghymru? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** **Tystysgrifau Perfformiad Ynni** Os yw'n berthnasol, rhowch eich sylwadau lle mae Tystysgrifau Perfformiad Ynni ar goll neu wedi dod i ben ar gyfer yr eiddo a restrir yn y tabl Tystysgrifau Perfformiad Ynni, yn y Ddogfen Ardystiadau a Thystiolaeth Ategol.	Oes ☐	
		Nac oes ☐	Os nad oes, rhestrwch yr eiddo sydd heb Dystysgrif Perfformiad Ynni neu eithriad cofrestredig dilys ac esboniwch yma:

2.2 (**)	A ydych chi'n gosod a / neu'n rheoli unrhyw eiddo yng Nghymru sydd â sgôr perfformiad ynni F a / neu G? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** **Tystysgrifau Perfformiad Ynni** Os yw'n berthnasol, rhowch eich sylwadau lle mae Tystysgrifau Perfformiad Ynni islaw sgôr 'E', ar gyfer yr eiddo a restrir yn y tabl Tystysgrifau Perfformiad Ynni, yn y Ddogfen Ardystiadau a Thystiolaeth Ategol.	Ydw ☐ Nac ydw ☐	Os ydych, rhestrwch yr eiddo sydd â sgôr perfformiad ynni F a / neu G, gan roi tystiolaeth o'r eithriad cofrestredig dilys neu sylwadau sy'n nodi pam eich bod yn parhau i osod a / neu reoli'r eiddo hyn:
Cofnodion Diogelwch Nwy			
2.3 (***)	A oes gan pob eiddo rydych yn eu rheoli Gofnod Diogelwch Nwy cyfredol a gyhoeddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** **Cofnodion Diogelwch Nwy** Cyflwynwch y Cofnodion Diogelwch Nwy cyfredol, ynghyd â'r wybodaeth ategol ar gyfer yr eiddo a restrir yn y tabl Cofnodion Diogelwch Nwy, yn y Ddogfen Ardystiadau a Thystiolaeth Ategol.	Oes ☐ Nac oes ☐	Os oes, cwblhewch y tabl Cofnodion Diogelwch Nwy yn y ddogfen Ardystiadau a Thystiolaeth Ategol a ddarperir. Os nad oes, esboniwch yma a chyflwynwch unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich esboniad:

2.4 (***)	A ydych chi'n sicrhau bod y peiriannydd a gynhyrchodd y Cofnod Diogelwch Nwy wedi'i gofrestru ar y Gofrestr Diogelwch Nwy?	Ydw ☐	Os ydych, rhowch y rhif/rhifau cofrestru Diogelwch Nwy a manylion y contractwr/contractwyr rydych yn ei ddefnyddio/eu defnyddio, nad ydynt yn y Cofnodion Diogelwch Nwy rydych yn eu cyflwyno i ni yma**:**
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:
2.5 (**)	A ydych chi'n cadw'r Cofnodion Diogelwch Nwy / Cofnodion Archwilio Offer Nwy o'r ddwy flynedd flaenorol ar gyfer yr holl eiddo rydych yn eu rheoli? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** **Cofnodion Diogelwch Nwy** Cyflwynwch Gofnodion Diogelwch Nwy y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r wybodaeth ategol ar gyfer yr eiddo a restrir yn y tabl Cofnodion Diogelwch Nwy, yn y Ddogfen Ardystiadau a Thystiolaeth Ategol.	Ydw ☐	Os ydych, rhowch dystiolaeth o sut y cynhelir y cofnodion hyn:
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:

Ffitrwydd i Fod yn Gartref: Carbon Monocsid			
2.6 (***)	A yw larymau Carbon Monocsid wedi'u gosod ym mhob ystafell sy'n cynnwys offer nwy, llosgydd olew, neu losgydd tanwydd solet? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** **Larymau Carbon Monocsid (CO)** Cyflwynwch y dystiolaeth Larymau Carbon Monocsid ofynnol a / neu'r sylwadau gofynnol ar gyfer yr eiddo a restrir yn y tabl Larymau Carbon Monocsid, yn y Ddogfen Ardystiadau a Thystiolaeth Ategol.	Ydynt ☐	Os ydynt, cyflwynwch dystiolaeth i ddangos bod larymau carbon monocsid yn bresennol, lle bo angen:
		Nac ydynt ☐	Os nad ydynt, esboniwch yma:

YN FWRIADOL WAG
EWCH I'R DUDALEN NESAF

Adroddiadau Cyflwr Gwaith Gosod Trydanol			
2.7 (***)	A oes Adroddiadau Cyflwr Gwaith Gosod Trydanol gennych ar gyfer yr holl eiddo yn eich portffolio? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** **Adroddiadau Cyflwr Gwaith Gosod Trydanol** Cyflwynwch yr Adroddiadau Cyflwr Gwaith Gosod Trydanol gofynnol, ynghyd â'r wybodaeth ategol ar gyfer yr eiddo a restrir yn y tabl Adroddiadau Cyflwr Gwaith Gosod Trydanol, yn y Ddogfen Ardystiadau a Thystiolaeth Ategol.	Oes ☐ Nac oes ☐	Os oes, rhestrwch unrhyw eiddo lle mae'r Adroddiad Cyflwr Gwaith Gosod Trydanol yn nodi bod y gwaith gosod yn anfoddhaol. Yn ogystal, cyflwynwch gopïau o'r adroddiad (adroddiadau) anfoddhaol ac esboniwch ba gamau rydych yn eu cymryd i ddatrys y rhesymau dros yr adroddiad (adroddiadau) anfoddhaol yma: Os nad oes, esboniwch yma:
Larymau Mwg			
2.8 (***)	A ydych chi'n sicrhau bod gan bob eiddo yn eich portffolio larwm mwg sy'n gweithio, sydd wedi'i weirio i'r prif gyflenwad ac sy'n rhyng-gysylltiedig, ar bob llawr? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** **Larymau Mwg** Cyflwynwch y dystiolaeth Larymau Mwg ofynnol a / neu'r sylwadau gofynnol ar gyfer yr eiddo a restrir yn y tabl Larymau Mwg, yn y Ddogfen Ardystiadau a Thystiolaeth Ategol.	Ydw ☐ Nac ydw ☐	Os ydych, cwblhewch y tabl Larymau Mwg yn y ddogfen Ardystiadau a Thystiolaeth Ategol a ddarperir. Os nad ydych, esboniwch yma:

Gwaith Gosod Trydanol: Person Cymwys			
2.9 (***)	A ydych chi'n sicrhau bod unrhyw waith trydanol hysbysadwy yn cael ei gwblhau yn unol â'r safonau gofynnol? Yn gyffredinol, ond heb fod yn gyfyngedig i, gwaith hysbysadwy yw gosodiad cwbl newydd neu ailweirio'r eiddo cyfan; neu adnewyddu uned defnyddiwr (blwch ffiws); neu osod: • cylched newydd, p'un ai ar foltedd isel (F 230 fel arfer) neu foltedd isel iawn, • gwres trydan ar y nenfwd neu ar y llawr, • generadur trydanol, • gwifrau pŵer / rheoli ar gyfer system gwres canolog. I gael mwy o wybodaeth gweler y Ddogfen gymeradwy hon ar Ddiogelwch Nwy	Ydw ☐	Os ydych, rhowch yr enw, y manylion cyswllt, y manylion achredu a'r mathau o waith a wneir, ar gyfer pob contractwr rydych yn ei ddefnyddio:
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:
Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth			
2.10 (**)	A oes gennych y trwyddedau gorfodol, ychwanegol neu ddetholus sydd eu hangen ar gyfer eich holl Dai Amlfeddiannaeth a reolir lle bo hynny'n briodol?	Oes ☐	Os oes, cwblhewch y tabl Tai Amlfeddiannaeth yn y ddogfen Ardystiadau a Thystiolaeth Ategol a ddarperir.
		Nac oes ☐	Os nad oes, esboniwch yma:

	NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL **Tai Amlfeddiannaeth** Cyflwynwch y wybodaeth ofynnol am Dai Amlfeddiannaeth yn y tabl Tai Amlfeddiannaeth, yn y Ddogfen Ardystiadau a Thystiolaeth Ategol.	Dd/B ☐	Os Dd/B, esboniwch yma:
Diogelwch Tân			
2.11 (**)	A oes gennych broses i ddangos bod asesiadau risg diogelwch tân yn cael eu cynnal ar gyfer pob eiddo sydd ag ardaloedd "cyffredin" (ardaloedd cymunedol)? *Mae “ardaloedd cyffredin" yn cynnwys cynteddau, grisiau, pennau grisiau, ac ati. at ddefnydd yr holl breswylwyr a muriau allanol a rennir.*	Oes ☐	Os oes, rhowch enghreifftiau o'r asesiadau risg a gwblhawyd a lle nodir gwaith adfer yn yr asesiadau risg tân, rhowch dystiolaeth bod y gwaith wedi'i gwblhau:
		Nac oes ☐	Os nad oes, esboniwch yma:
		Dd/B ☐	Os Dd/B, esboniwch yma:

Darparwr Dŵr			
2.12 (**)	A oes gennych broses i roi gwybod i'r cyflenwr dŵr am denantiaid newydd (deiliad contract) o fewn 21 diwrnod i ddechrau'r contract meddiannaeth?	Oes ☐	Os oes, esboniwch y broses a chyflwynwch dystiolaeth o unrhyw gyfrif sydd gennych gydag unrhyw drydydd partïon i gwblhau'r dasg hon (*e.e. rhif cyfrif / sgrinlun o gyfrif Landlord Tap):*
		Nac oes ☐	Os nad oes, esboniwch yma:

ADRAN 3 - FFIOEDD LANDLORDIAID A CHONTRACTAU			
Rhif y Cwestiwn	Cwestiwn	Ateb	Esboniad
Ffioedd a Threuliau Landlord Cleient – Rhestr wedi'i Chyhoeddi o Brisiau'r Asiant			
3.1 (**)	A yw'r holl ffioedd a chostau a godir ar landlordiaid cleientiaid yn cael eu harddangos ar eich gwefan ac yn eich swyddfa / swyddfeydd? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol? **Eitem 6: Rhestr wedi'i Chyhoeddi o Ffioedd Landlordiaid Cleientiaid**	Ydynt ☐	Os ydynt, rhowch gyfeiriad y wefan a ffotograff o'r rhestr o ffioedd landlordiaid cleientiaid a ddangosir yn eich swyddfa / swyddfeydd:
		Nac ydynt ☐	Os nad ydynt, esboniwch sut rydych yn sicrhau bod landlordiaid cleientiaid yn ymwybodol o'r ffioedd a'r costau y gallent fod yn agored iddynt:
3.2 (**)	A yw'r ffioedd a'r costau a nodir yn eich rhestr wedi'i chyhoeddi o ffioedd landlordiaid cleientiaid wedi'u cyfrifo fel rhai sy'n cynnwys TAW?	Ydynt ☐	Os ydynt, sut rydych yn ei gwneud yn glir i landlordiaid bod y ffioedd yn cynnwys TAW?
		Nac ydynt ☐	Os nad ydynt, esboniwch yma:

Telerau Busnes / Contract Ysgrifenedig Landlord Cleient			
3.3 (**)	A ydych chi'n rhoi contract ysgrifenedig sy'n cynnwys eich Telerau Busnes i'ch landlordiaid cleientiaid? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol? **Eitem 7: Contract / Telerau Busnes Landlord Cleient**	Ydw ☐ Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:
Contract / Telerau Busnes Ysgrifenedig Landlord Cleient: Ffioedd a Threuliau Landlordiaid Cleient			
3.4 (**)	A oes unrhyw ffioedd a chostau a godir ar landlordiaid cleientiaid, a nodir yn eich contract / telerau busnes ysgrifenedig?	Oes ☐ Nac oes ☐	Os oes, rhestrwch yr holl ffioedd a chostau a godir ar landlordiaid cleientiaid a nodir yn eich contract / telerau busnes ysgrifenedig: Os nad oes, a oes unrhyw ffioedd yr ydych yn eu codi nad ydynt wedi'u cofnodi:

Contract / Telerau Busnes Ysgrifenedig Landlord Cleient: Hyd			
3.5 (**)	A yw hyd y cytundeb i reoli'r eiddo ar ran y landlord cleient wedi'i gynnwys yn eich contract / telerau busnes ysgrifenedig?	Ydy ☐	Os ydy, nodwch y mater cyfan o'r contract / telerau busnes, yn cynnwys rhif y mater:
		Nac ydy ☐	Os nad ydy, esboniwch yma:
Contract / Telerau Busnes Ysgrifenedig Landlord Cleient: Awdurdod Ariannol ar gyfer Gwariant			
3.6 (**)	A yw graddfa eich awdurdod ariannol i awdurdodi gwariant ar gyfer gwaith atgyweirio / cynnal a chadw wedi'i chynnwys yn y contract / telerau busnes?	Ydy ☐	Os oes, nodwch y mater cyfan o'r contract / telerau busnes, gan gynnwys rhif y mater:
		Nac ydy ☐	Os nad ydy, esboniwch yma:
Contract / Telerau Busnes Ysgrifenedig Landlord Cleient: Cyfnod Newid eich Meddwl o 14 Diwrnod			
3.7 (**)	A yw'r contract / telerau busnes yn cynnig cyfnod newid eich meddwl o 14 diwrnod?	Ydy ☐	Os oes, nodwch y mater cyfan o'r contract / telerau busnes, gan gynnwys rhif y mater:
		Nac ydw ☐	Os nad ydy, esboniwch pam nad yw hyn yn cael ei gynnig yn y contract / telerau busnes:

Contract / Telerau Busnes Ysgrifenedig Landlord Cleient: Telerau Eraill			
3.8 (**)	A oes mater yn y contract / telerau busnes sy'n datgan bod yn rhaid i'r landlord cleient dalu comisiwn i chi os yw'r eiddo yn cael ei werthu i'r tenant (deiliad contract) neu unrhyw drydydd parti arall?	Oes ☐ Nac oes ☐	Os oes, nodwch y mater cyfan o'r contract / telerau busnes, gan gynnwys rhif y mater:
3.9 (**)	A oes mater yn y contract / telerau busnes sy'n datgan y byddwch yn newid y telerau / ffioedd yn y contract?	Oes ☐ Nac oes ☐	Os oes, nodwch y mater cyfan o'r contract / telerau busnes, gan gynnwys rhif y mater:
Contract / Telerau Busnes Ysgrifenedig y Landlord Cleient: Penodi Is-asiant / Contractwr			
3.10 (**)	A oes mater yn y contract / telerau busnes i gael awdurdodiad y landlord i is-gontractio unrhyw un o'ch dyletswyddau fel asiant? *Gall dyletswyddau gynnwys geirdaon, credyd, gwiriadau stocrestr, archwiliadau eiddo, ac ati.*	Oes ☐ Nac oes ☐	Os oes, nodwch y mater cyfan o'r contract / telerau busnes, gan gynnwys rhif y mater: Os nad oes, esboniwch yma:

3.11 (**)	Pan benodir is-gontractwr newydd yn ystod cyfnod contract y landlord, i gwblhau unrhyw un o'ch dyletswyddau fel asiant, a ydych chi'n cael caniatâd y landlord cleient? *Gall dyletswyddau gynnwys geirdaon, credyd, gwiriadau stocrestr, archwiliadau eiddo, ac ati.*	Ydw ☐	Os ydych, esboniwch sut rydych yn cael caniatâd y landlord:
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:
		Dd/B ☐	Os Dd/B, esboniwch yma:
Contract / Telerau Busnes Ysgrifenedig Landlord Cleient: Dogfen Wedi'i Llofnodi a'i Dyddio			
3.12 (*)	A yw eich contract / telerau busnes yn ddogfen wedi'i llofnodi a'i dyddio?	Ydy ☐	Os felly, nodwch ble mae hyn i'w gael yn y contract / telerau busnes:
		Nac ydy ☐	Os nad ydy, esboniwch yma:

ADRAN 4 - FFIOEDD TENANTIAID (DEILIAID CONTRACT)			
Rhif y Cwestiwn	Cwestiwn	Ateb	Esboniad
Arddangos Costau a Ffioedd: Rhestr wedi'i chyhoeddi o ffioedd yr asiant			
4.1 (**)	A yw'r holl ffioedd a chostau a godir ar denantiaid (deiliaid contract) (cyn, yn ystod ac ar ôl contract) yn cael eu harddangos ar eich gwefan, yn eich swyddfa / swyddfeydd ac ar yr holl lwyfannau hysbysebu eiddo ar-lein perthnasol (Rightmove, Zoopla, On the Market, ac ati.) **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol? **Eitem 8: Rhestr Wedi'i Chyhoeddi o Ffioedd Tenantiaid (Deiliaid Contract)**	Ydynt ☐	Os ydynt, rhowch gyfeiriad y wefan, cyfeiriad (cyfeiriadau) y llwyfan (llwyfannau) hysbysebu trydydd parti a ffotograff o'r rhestr o ffioedd tenantiaid (deiliaid contract) a ddangosir yn eich swyddfa (swyddfeydd):
		Nac ydynt ☐	Os nad ydynt, esboniwch sut mae tenantiaid (deiliaid contract) yn ymwybodol o'r ffioedd a'r costau y gallent fod yn agored iddynt:
4.2 (**)	A yw'r ffioedd a'r costau a nodir yn eich rhestr wedi'i chyhoeddi o ffioedd tenantiaid (deiliaid contract) wedi'u cyfrifo fel rhai sy'n cynnwys TAW?	Ydynt ☐	Os ydynt, sut rydych yn ei gwneud yn glir i denantiaid bod y ffioedd yn cynnwys TAW:
		Nac ydynt ☐	Os nad ydynt, esboniwch yma:

4.3 (**)	A oes unrhyw ffioedd a chostau a godir ar denantiaid (deiliaid contract) a nodir yn eich Contract Meddiannaeth?	Oes ☐	Os oes, rhestrwch yr holl ffioedd a chostau a godir ar denantiaid (deiliaid contract) a nodir yn eich Contract Meddiannaeth:
		Nac oes ☐	Os nad oes, a ydych chi'n codi unrhyw ffioedd ar denantiaid (deiliaid contract) nad ydynt wedi'u cofnodi?
Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019: Cyfleustodau, Trwydded Deledu a Gwasanaethau Cyfathrebu			
4.4 (**)	A ydych chi'n codi unrhyw ffioedd mewn perthynas â chyfleustodau, trwydded deledu a gwasanaethau cyfathrebu?	Ydw ☐	Os ydych, nodwch y cymal cyfan o'r Contract Meddiannaeth, gan gynnwys rhif y mater:
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:
Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019: Ffioedd Diofyn: Rhent Hwyr, Allweddi, Cloeon a Dyfeisiau Diogelwch			
4.5 (**)	A ydych chi'n codi unrhyw ffioedd ar denantiaid (deiliaid contract) am rent hwyr?	Ydw ☐	Os ydych, esboniwch sut rydych yn cyfrifo'r ffi a phryd y byddai'n cael ei chodi:
		Nac ydw ☐	

4.6 (**)	A yw'r Contract Meddiannaeth yn cynnwys mater sy'n cyfeirio at rent hwyr?	Ydy ☐	Os ydy, nodwch y mater cyfan o'r Contract Meddiannaeth, gan gynnwys rhif y mater:
		Nac ydy ☐	Os nad ydy, esboniwch yma:
4.7 (**)	A ydych chi'n codi tâl ar denantiaid (deiliaid contract) am allweddi, cloeon a dyfeisiau diogelwch newydd?	Ydw ☐	Os ydych, esboniwch sut rydych yn cyfrifo'r ffi:
		Nac ydw ☐	
4.8 (**)	A yw'r Contract Meddiannaeth yn cynnwys unrhyw delerau sy'n cyfeirio at allweddi, cloeon a dyfeisiau diogelwch newydd?	Ydy ☐	Os ydy, nodwch y mater cyfan o'r Contract Meddiannaeth, gan gynnwys rhif y mater:
		Nac ydy ☐	Os nad ydy, esboniwch yma:

Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019: Taliadau Eraill			
4.9 (**)	A ydych chi'n codi unrhyw ffioedd eraill (ac eithrio blaendaliadau cadw / diogelu) ar denantiaid (deiliaid contract) cyn, yn ystod a / neu ar ôl contract?	Ydw ☐	Os ydych, rhestrwch y ffioedd a godir, gan nodi unrhyw fater o'r Contract Meddiannaeth, gan gynnwys rhif(au) y mater sy'n cyfeirio at y ffioedd a godir:
		Nac ydw ☐	
Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019: Ymrwymo i gontract gwasanaeth			
4.10 (**)	A ydych chi'n gofyn i'r tenant (deiliad contract) ymrwymo i gontract ar gyfer gwasanaethau gyda'r landlord, yr asiant, neu unrhyw berson arall?	Ydw ☐	Os ydych, rhestrwch y contract ar gyfer gwasanaethau y mae angen i'r tenant (deiliad contract) ymrwymo iddo, gan roi tystiolaeth lle nodir y gofyniad hwn:
		Nac ydw ☐	

ADRAN 5 – GWEITHGAREDDAU GOSOD			
Rhif y Cwestiwn	Cwestiwn	Ateb	Esboniad
Hysbysebion Eiddo			
5.1 (**)	Wrth hysbysebu eiddo, a ydych chi'n gwirio bod y manylion a ddarperir yn gywir, nad ydynt yn gamarweiniol a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth faterol y gallai fod ei hangen ar ddarpar denant (deiliad contract) i wneud penderfyniad gwybodus? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol ar gyfer yr eiddo gofynnol? **Eitem A: Hysbyseb Eiddo a Gyhoeddwyd yn Ddiweddar ac Unrhyw Dempled a Ddefnyddir i Greu Hysbysebion Eiddo**	Ydw ☐ Nac ydw ☐	Os ydych, esboniwch sut rydych yn sicrhau nad yw hysbysebion eiddo yn gamarweiniol a rhestrwch y wybodaeth faterol safonol rydych yn ei hychwanegu i'ch hysbysebion eiddo: Os nad ydych, esboniwch yma:

Cyn Ymrwymiad Ariannol: Gwybodaeth Darpar Denant (Deiliad Contract)			
5.2 (**/*)	A ydych chi'n codi blaendal cadw?	Ydw ☐	Os ydych, ewch i **Gwestiwn 5.3**
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma a rhowch dystiolaeth o'r hyn a roddir i ddarpar denant (deiliad contract) cyn gwneud ymrwymiad ariannol. (*Gall tystiolaeth gynnwys, ymhlith pethau eraill, sgrinluniau wedi'u dyddio o wefan, dogfennau contract, ac ati.)* ac ewch i **Gwestiwn 5.6**.
Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019: Blaendal Cadw			
5.3 (**)	A ydych chi'n cyfrifo swm y blaendal cadw yn seiliedig ar y rhent?	Ydw ☐	Os ydych, esboniwch sut rydych yn cyfrifo swm y blaendal cadw ynghyd ag unrhyw hafaliad rydych yn ei ddefnyddio:
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:

5.4 (**)	A ydych chi'n rhoi unrhyw wybodaeth i ddarpar denantiaid (deiliaid contract) cyn derbyn y blaendal cadw? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol ar gyfer yr eiddo gofynnol? **Eitem B: Gwybodaeth am Flaendaliadau Cadw**	Ydw ☐ Nac ydw ☐	Os ydych, rhowch dystiolaeth o'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ddarpar denantiaid (deiliaid contract): Os rhoddir y wybodaeth yn electronig, sut rydych yn cael caniatâd y darpar denantiaid (deiliaid contract)? Os nad ydych, esboniwch yma:
5.5 (**)	A ydych chi'n ad-dalu'r holl flaendaliadau cadw a gymerwyd? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol ar gyfer yr eiddo gofynnol? **Eitem C: Ad-dalu Blaendaliadau Cadw**	Ydw ☐ Nac ydw ☐	Os ydych, nodwch y broses a chynnwys unrhyw amserlenni: Os nad ydych, esboniwch pam nad ydych wedi ad-dalu blaendal cadw yma:

Ystyried Contract Meddiannaeth: Cytuno ar y Contract – Amserlen			
5.6 (**)	A ydych chi'n rhoi cyfle i ddarpar denantiaid (deiliaid contract) ddarllen Contract Meddiannaeth drafft neu sampl cyn llofnodi'r Contract Meddiannaeth?	Ydw ☐	Os ydych, rhowch dystiolaeth o'r amser a roddir:
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:
Geirdaon a Gwiriadau - Gofynion: Caniatâd Tenant (Deiliad Contract)			
5.7 (**)	A ydych chi'n ceisio caniatâd tenant (deiliaid contract) cyn cael geirda / cyflawni gwiriad credyd?	Ydw ☐	Os ydych, rhowch dystiolaeth o'r weithdrefn a rhowch enghraifft o sut y ceir caniatâd:
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:

Contract Meddiannaeth: Cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig			
5.8 (**)	A ydych chi'n rhoi datganiad ysgrifenedig o'r Contract Meddiannaeth i'r tenant (deiliad contract) o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad meddiannu? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol? **Eitem 9: Datganiad Ysgrifenedig o Gontract Meddiannaeth Newydd**	Ydw ☐	Os ydych, rhowch dystiolaeth o sut rydych yn rhoi'r datganiad i'r tenant (deiliad contract): Os rhoddir y datganiad yn electronig, sut rydych yn cael caniatâd y darpar denant (deiliad contract)?
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:
Contract Meddiannaeth: Materion Allweddol			
5.8a (**)	A yw'r datganiad ysgrifenedig yn cynnwys yr holl Faterion Allweddol?	Ydy ☐	Os ydy, nodwch leoliad pob Mater Allweddol yn y datganiad ysgrifenedig gan gynnwys rhif y mater (os yw'n berthnasol):
		Nac ydy ☐	Os nad ydy, nodwch yr holl Faterion Allweddol nad ydynt wedi'u cynnwys ac esboniwch yma:

Contract Meddiannaeth: Telerau Sylfaenol			
5.8b (**)	A yw'r datganiad ysgrifenedig yn cynnwys yr holl Delerau Sylfaenol?	Ydy ☐	
		Nac ydy ☐	Os nad ydy, nodwch y Telerau Sylfaenol a hepgorwyd a nodwch leoliad y telerau a hepgorwyd, o fewn y datganiad ysgrifenedig, gan gynnwys rhif y mater (os yw'n berthnasol):
5.8c (**)	A yw'r datganiad ysgrifenedig yn cynnwys unrhyw Delerau Sylfaenol sydd wedi'u haddasu?	Ydy ☐	Os ydy, nodwch y Telerau Sylfaenol a addaswyd gan gynnwys y mater cyfan o'r datganiad ysgrifenedig a rhif y mater (os yw'n berthnasol):
		Nac ydy ☐	

Contract Meddiannaeth: Telerau Ychwanegol			
5.8d (**)	A yw'r datganiad ysgrifenedig yn cynnwys unrhyw Delerau Ychwanegol?	Ydy ☐	Os ydy, nodwch sut y gellir nodi'r Telerau Ychwanegol yn y datganiad ysgrifenedig: Os nad oes modd nodi'r Telerau Ychwanegol yn hawdd, sicrhewch fod y datganiad ysgrifenedig yn cael ei anodi, er mwyn sicrhau bod modd nodi'r telerau ychwanegol yn hawdd.
		Nac ydy ☐	
Dogfennau Ategol - Gofynion: Pecyn Gwybodaeth i Denantiaid (Deiliaid Contract)			
5.9 (**)	A ydych chi'n rhoi gwybodaeth a dogfennau i denantiaid (deiliaid contract) pan fo'r contract meddiannaeth yn dechrau? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol ar gyfer yr eiddo gofynnol? **Eitem D: Pecyn Gwybodaeth i Denantiaid (Deiliaid Contract)**	Ydw ☐	Os ydych, rhowch dystiolaeth o sut rydych yn rhoi'r wybodaeth a'r dogfennau i'r tenantiaid (deiliaid contract) a chynnwys unrhyw amserlenni:
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:

Dogfennau Ategol - Gofynion: Stocrestr Eiddo			
5.10a (**)	A ydych chi'n rhoi stocrestr eiddo i denantiaid (deiliaid contract)? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol ar gyfer yr eiddo gofynnol? **Eitem E: Stocrestr Eiddo**	Ydw ☐	Os ydych, nodwch y broses a chynnwys unrhyw amserlenni:
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:
5.10b (**)	A ydych chi'n rhoi cyfle i denantiaid (deiliaid contract) wirio a llofnodi unrhyw stocrestrau a roddir?	Ydw ☐	Os ydych, nodwch unrhyw gyfarwyddiadau a roddir ac unrhyw amserlenni a ganiateir i denant (deiliad contract) ymateb:
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:

Dogfennau Ategol - Gofynion: Hysbysiad o Gyfeiriad y Landlord			
5.11 (**)	A ydych chi'n rhoi enw a chyfeiriad y landlord i denantiaid (deiliaid contract), y gellir anfon dogfennau ar gyfer y landlord iddo? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol ar gyfer yr eiddo gofynnol? **Eitem F: Hysbysiad o Gyfeiriad y Landlord**	Ydw ☐ Nac ydw ☐	Os ydych, nodwch y broses a chynnwys unrhyw amserlenni: Os nad ydych, esboniwch yma:
Blaendaliadau Diogelu: Dechrau Contract			
5.12 (**)	Lle mae angen blaendal diogelu, a yw'r blaendal diogelu yn cael ei ddiogelu mewn cynllun awdurdodedig o fewn 30 diwrnod i'w dderbyn? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol? **Eitem 10: Tystiolaeth o Aelodaeth o Gynllun Diogelu Blaendal Diogelu**	Ydy ☐ Nac ydy ☐	Os ydy, rhowch dystiolaeth o'r broses hon: Os nad ydy, esboniwch yma:

5.13 (**)	A yw gwybodaeth am y cynllun awdurdodedig yn cael ei chyfleu i'r tenant (deiliad contract) yn ysgrifenedig o fewn 30 diwrnod i dderbyn yr blaendal? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol ar gyfer yr eiddo gofynnol? **Eitem G: Gwybodaeth Ragnodedig am Flaendal Diogelu Wedi'i Lofnodi** **Eitem H: Gwybodaeth Ragnodedig am Flaendal Diogelu Ychwanegol**	Ydy ☐ Nac ydy ☐	Os ydy, rhowch dystiolaeth o'r broses hon: Os nad ydy, esboniwch yma:
5.14 (**)	A yw'r tenant (deiliad contract) yn cael cyfle i wirio a llofnodi'r wybodaeth ragnodedig?	Ydy ☐ Nac ydy ☐	Os ydy, rhowch dystiolaeth o'r broses hon: Os nad ydy, esboniwch yma:

ADRAN 6 – GWEITHGAREDDAU RHEOLI			
Rhif y Cwestiwn	Cwestiwn	Ateb	Esboniad
Rhoi Rhybudd: Rhoi Rhybudd i Denant (Deiliad Contract) Presennol			
6.1 (**)	A oes o leiaf 24 awr o rybudd yn cael ei roi i denantiaid (deiliaid contract) cyn i chi neu unrhyw berson a gyfarwyddir gennych chi fynd i mewn i'r eiddo?	Oes ☐	Os oes, rhowch dystiolaeth o sut mae'r cais yn cael ei roi a'i gofnodi:
		Nac oes ☐	Os nad oes, esboniwch yma:

YN FWRIADOL WAG
EWCH I'R DUDALEN NESAF

Cyflwr Eiddo: Cyflwr Eiddo Drwy Gydol y Contract			
6.2 (***/**/*)	A oes gennych broses i sicrhau bod eiddo'n cael ei gadw mewn cyflwr diogel a heb unrhyw risg annerbyniol i iechyd y tenantiaid (deiliaid contract)? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol ar gyfer yr eiddo gofynnol? **Eitem I: Adroddiad Archwilio Eiddo** **Eitem J: Cofnodion Gwaith Cynnal a Chadw / Atgyweirio**	Oes ☐	Os oes, esboniwch a rhowch dystiolaeth o'r broses drwy gydol contract, sy'n dangos: • Sut rydych yn sicrhau bod eiddo yn ddiogel ar ddechrau contract: • Sut rydych yn delio â cheisiadau am waith atgyweirio a / neu gynnal a chadw *(*gall tystiolaeth gynnwys cadwyn e-bost o gais y tenant (deiliad contract) hyd at y datrysiad*)*: • Sut rydych yn sicrhau bod contractwyr yn cwblhau eu manyleb waith ofynnol: • Lle mae archwiliadau cyfnodol yn cael eu cwblhau, amlder yr archwiliadau hynny: • Unrhyw wasanaeth y tu allan i oriau rydych yn ei ddarparu i denantiaid (deiliaid contract):
		Nac oes ☐	Os nad oes, esboniwch yma:

Cyflwr Eiddo: Dodrefn			
6.3 (**)	Os yw eiddo'n cael ei osod gyda dodrefn, a yw'r dodrefn yn arddangos y safonau gwrthsefyll tân gofynnol?	Ydynt ☐	Os ydynt, rhowch dystiolaeth i ddangos bod dodrefn yn arddangos y safonau gwrthsefyll tân gofynnol:
		Nac ydynt ☐	Os nad ydynt, esboniwch yma:
		Dd/B ☐	Os Dd/B, esboniwch yma:
Cyflwr Eiddo: Offer Cludadwy			
6.4 (**)	A ydych chi'n gosod unrhyw eiddo sydd ag offer trydanol cludadwy fel, ond heb fod yn gyfyngedig i: • Offer bach fel sugnwyr llwch, gwresogyddion cludadwy, ffaniau, setiau teledu, heyrn smwddio, tegellau, tostwyr ac ati. • Eitemau mwy y gellid eu symud (ond dim ond yn anaml) e.e. oergelloedd, microdonnau, peiriannau golchi, ac ati. Mae rhestr lawn o offer cludadwy a symudol i'w gweld ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: Cynnal offer trydanol symudol mewn amgylcheddau risg isel.	Ydw ☐	Os ydych, rhowch dystiolaeth o'r mesurau rydych yn eu cymryd i asesu unrhyw bryderon a sut rydych yn sicrhau bod offer trydanol yn gweithredu'n ddiogel (e.e. Profion Dyfeisiau Cludadwy):
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:

Asbestos			
6.5a (**)	A oes gennych broses i ddangos diwydrwydd dyladwy yn eich arferion rheoli, i brofi eich bod yn hysbysu contractwyr am bresenoldeb asbestos, lle rydych wedi eu cyfarwyddo i gwblhau gwaith yn yr eiddo rhent rydych yn eu gosod / rheoli?	Oes ☐	Os oes, esboniwch y weithdrefn a rhowch dystiolaeth ohoni:
		Nac oes ☐	Os nad oes, esboniwch yma:
6.5b (**)	A oes unrhyw aelodau o staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o asbestos?	Oes ☐	Os oes, rhowch fanylion yr hyfforddiant ynghyd â thystiolaeth ohono:
		Nac oes ☐	Os nad oes, esboniwch yma:
6.5c (**)	A ydych chi'n cynnal asesiadau risg Asbestos i asesu rhannau cyffredin y Tai Amlfeddiannaeth rydych yn eu gosod / rheoli, os yw'n berthnasol?	Ydw ☐	Os ydych, cyflwynwch asesiad risg ar gyfer Tŷ Amlfeddiannaeth yn eich portffolio:
		Nac ydw ☐	Os nad ydych, esboniwch yma:

		Dd/B ☐	Os Dd/B, esboniwch yma:
Clefyd y Llengfilwyr			
6.6 (**)	A oes gennych broses i ddangos diwydrwydd dyladwy yn eich arferion rheoli, i liniaru'r perygl o glefyd y llengfilwyr yn yr eiddo rhent rydych yn eu gosod / rheoli?	Oes ☐	Os oes, esboniwch y weithdrefn a rhowch dystiolaeth ohoni:
		Nac oes ☐	Os nad oes, esboniwch yma:
Gofynion i Ddod â Chontract i Ben: Llwybrau i Feddiant			
6.7 (**/*)	A oes gennych weithdrefnau ar waith i sicrhau bod y llwybrau cywir i feddiant yn cael eu dilyn? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol ar gyfer yr eiddo gofynnol? **Eitem K: Tystiolaeth o Lwybr i Feddiant**	Oes ☐	Os oes, esboniwch y gweithdrefnau sy'n cael eu dilyn a rhowch dystiolaeth ohonynt:
		Nac oes ☐	Os nad oes, esboniwch yma:

Gofynion i Ddod â Chontract i Ben: Trin Blaendal Diogelu			
6.8a (**)	Ar ôl i'r Contract Meddiannaeth ddod i ben, a lle roedd angen blaendal diogelu, a yw balans y blaendal diogelu yn cael ei ddychwelyd i'r tenant (deiliad contract) blaenorol o fewn amserlen resymol? Mae hyn yn cynnwys yn dilyn unrhyw drafodaethau, os yw'n berthnasol. **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol ar gyfer yr eiddo gofynnol? **Eitem L: Amserlen Dychwelyd Blaendal Diogelu**	Ydy ☐ Nac ydy ☐	Os ydy, esboniwch a nodwch yr amserlen: Os nad ydy, esboniwch yma:
6.8b (**)	Os oes angen tynnu didyniadau o'r blaendal diogelu, a yw hyn yn digwydd dim ond i ad-dalu colledion na ellir eu priodoli'n rhesymol i draul arferol? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol ar gyfer yr eiddo gofynnol? **Eitem M: Tynnu Didyniadau o Flaendal Diogelu Cyfrifo a Rhesymu**	Ydy ☐ Nac ydy ☐	Os ydy, esboniwch eich proses a rhowch dystiolaeth o sut rydych yn cyfrifo'r colledion hyn, i gefnogi'ch hawliadau: Os nad ydy, esboniwch yma:

6.8c (**)	Os oes angen tynnu didyniadau o'r blaendal diogelu, a yw'r rhesymau dros hyn yn cael eu rhoi i'r tenant (deiliaid contract) blaenorol yn ysgrifenedig, os gofynnir amdanynt?	Ydynt ☐	Os ydynt, rhowch dystiolaeth o'r rhesymau dros y didyniadau sy'n cael eu rhoi'n ysgrifenedig i denant (deiliad contract).
		Nac ydynt ☐	Os nad ydynt, esboniwch yma:
6.8d (**)	Os oes angen tynnu didyniadau o'r blaendal diogelu a bod anghydfod ynghylch y swm, a oes gennych weithdrefnau ar waith i ddatrys neu uwchgyfeirio'r anghydfod? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol ar gyfer yr eiddo gofynnol? **Eitem N: Uwchgyfeirio Blaendal Diogelu**	Oes ☐	Os oes, rhowch dystiolaeth o'ch gweithdrefn a nodwch unrhyw amserlenni:
		Nac oes ☐	Os nad oes, esboniwch yma:

6.8e (**)	Os oes angen tynnu didyniadau o'r blaendal diogelu a bod anghydfod ynghylch y swm, yn dilyn penderfyniad dyfarnwr y cynllun blaendal neu drwy orchymyn llys, a yw swm yr blaendal diogelu yn cael ei ddychwelyd i'r tenant (deiliad contract) blaenorol o fewn amserlen resymol? **NODYN ATGOFFA AM ARDYSTIADAU A THYSTIOLAETH ATEGOL** A ydych chi wedi cyflwyno'r Ddogfen Fusnes ganlynol ar gyfer yr eiddo gofynnol? **Eitem O: Amserlen Dychwelyd Blaendal Diogelu yn dilyn Datrysiad / Uwchgyfeirio**	Ydy ☐	Os ydy, esboniwch a nodwch yr amserlen:
		Nac ydy ☐	Os nad ydy, esboniwch yma:

DATGANIAD ARCHWILIAD ASIANT A PHROSESU DATA

I'w gwblhau gan y trwyddedai neu'r defnyddiwr cysylltiedig sy'n gyfrifol am yr archwiliad

Datganiad o Wirionedd

Drwy lofnodi a rhoi eich enw isod, rydych yn datgan bod y wybodaeth sydd yn yr archwiliad yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth. Rydych yn deall eich bod yn troseddu os ydych yn cyflwyno unrhyw wybodaeth i'r Awdurdod Trwyddedu yn gysylltiedig ag unrhyw un o'i swyddogaethau dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 sy'n anwir neu'n gamarweiniol ac y gwyddoch ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol neu os ydych yn ddiofal ynghylch a yw'r wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol.

Os yw'r archwiliad yn cael ei gwblhau gan unigolyn sy'n gweithredu ar ran yr asiant, at ddibenion y datganiad hwn mae'r term 'chi' yn cyfeirio at y trwyddedai.

Datganiad Prosesu a Rhannu Data

Bydd unrhyw doriadau neu ddiffyg cydymffurfiaeth a ganfyddir o ganlyniad i'r archwiliad hwn yn cael eu hatgyfeirio at y sefydliadau gorfodi / cyrff proffesiynol perthnasol a gall eich trwydded gael ei dirymu. Gallwch ddarllen mwy am ein polisi preifatrwydd ar ein gwefan.

Enw llawn:		**Rôl yn yr asiantaeth:**	
Llofnod:		**Dyddiad:**	

DYCHWELYD YR HOLIADUR CYN ARCHWILIO A'R HOLL DYSTIOLAETH ARDYSTIO AC ATEGOL ANGENRHEIDIOL

Ar ôl ei gwblhau, dychwelwch yr Holiadur Cyn Archwilio a'r ddogfen Ardystiad a Thystiolaeth Ategol wedi'u cwblhau, ynghyd â'r holl ddogfennau y gofynnir amdanynt, dim hwyrach na'r dyddiad ymateb a nodir.

I gyflwyno eich dogfennau archwilio:

- Casglwch y ffeiliau yr hoffech eu cyflwyno mewn plygell.
- Dylech ond ychwanegu tua 20 ffeil at blygell, gan mai dim ond 50MB o ffolderi cywasgedig y gallwch chi eu cyflwyno ar y tro.
- Cywasgwch y blygell yn ZIP FILE. Rydych chi'n gwneud hyn drwy glicio ochr dde y llygoden ar y ffolder a dewis "*Send To*" ac yna clicio ar "*Compressed (Zipped) Folder*" (Gall y cyfarwyddiadau hyn fod yn wahanol, yn dibynnu ar y system weithredu rydych chi'n ei defnyddio),
- Mewngofnodwch i'ch cyfrif Rhentu Doeth Cymru yma,
- Yna cliciwch yma i gyflwyno eich dogfennau archwilio (gwnewch yn siŵr eich bod wedi mewngofnodi cyn clicio ar y ddolen),
- Ar y ffurflen, bydd angen i chi nodi yn y blychau pa ddogfennau rydych chi'n eu cyflwyno.
- Cliciwch y botwm CHOOSE FILES i ddewis y ffeiliau rydych chi eisiau eu lanlwytho a chliciwch OPEN, aros i gylch gwyrdd ymddangos wrth ymyl pob ffeil zip wedi'i lanlwytho,
- Cliciwch ar y botwm SUBMIT i gyflwyno'r dogfennau,
- Os oes angen i chi gyflwyno mwy na 50MB, gallwch ailadrodd y camau uchod a chyflwyno cynifer o ddogfennau ag sydd angen.

Fel arall, gallwch anfon y dogfennau archwilio drwy'r post i: **Rhentu Doeth Cymru, Tîm Archwiliadau Asiant, BLWCH SP 1106, Caerdydd, CF11 1UA.**

Esboniad o'r Sgôr Archwilio
Adroddiad Archwilio Interim
Mae'r Sgôr Archwilio'n deillio o'r sgôr isaf a ddyfarnwyd ar draws holl adrannau'r Adroddiad Archwilio Interim.

Mae'r adrannau'n cael eu sgorio ar sail system sgorio a esbonnir yn y tabl 'Cyfrifiannell Sgorio Archwiliad Asiant Rhentu Doeth Cymru' isod. Caiff ymatebion i gwestiynau penodol ym mhob adran o'r archwiliad eu pwysoli: 1*, 2** neu 3***, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb diffyg cydymffurfio.

Mae ymateb anfoddhaol i unrhyw un o'r cwestiynau wedi'u pwysoli hyn yn pennu sgôr adran. Fodd bynnag, gellir pennu'r sgôr hefyd gan hyder yr Archwilydd mewn rheolaeth.

Adroddiad Archwilio Terfynol
Os yw'r asiant wedi cyflwyno tystiolaeth foddhaol mewn perthynas â'r arsylwadau a'r camau unioni a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Interim, gall yr archwilydd uwchraddio'r adran gan un sgôr, lle bo hynny'n briodol.

Mae'r Sgôr Archwilio gyffredinol yn deillio o'r sgôr isaf ar draws holl adrannau'r Adroddiad Archwilio Terfynol.

CYFRIFIANNELL SGORIO ARCHWILIAD ASIANT RHENTU DOETH CYMRU			
Sgôr Archwilio	Cydymffurfiaeth	Disgrifiad	Ymateb Archwilio
1 - Angen Gweithredu ar Frys	Meysydd Pryder Mawr (Rheoleiddiol)	• Yn gofyn am gamau gorfodi. • Nid yw'r ddeddfwriaeth yn cael ei dilyn. • Nid yw'r gofynion cyfreithiol yn cael eu bodloni yn barhaus. • Ystyriwyd dirymu'r drwydded.	Unrhyw gwestiwn 3**** wedi'i ateb yn anfoddhaol
2 - Angen Gweithredu	Meysydd Pryder (Rhybuddiol)	• Gall ofyn am gamau gorfodi. • Yn cydymffurfio'n rhannol â'r ddeddfwriaeth. • Nid yw pob gofyniad cyfreithiol yn cael ei fodloni.	Unrhyw gwestiwn 2** wedi'i ateb yn anfoddhaol
3 – Boddhaol	Meysydd Pryder nad ydynt yn Gritigol	• Yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth. • Mae'r holl ofynion cyfreithiol yn cael eu bodloni gyda rhywfaint o arfer gorau ac ymdrech i wella.	Unrhyw gwestiwn 1* wedi'i ateb yn anfoddhaol
4 - Arfer Gorau	Yn Cyflawni Arfer Gorau a Chydymffurfiaeth Gyfreithiol	• Nid oes unrhyw feysydd pryder sylweddol. • Mae'r holl ofynion cyfreithiol yn cael eu bodloni yn ogystal â'r mwyafrif o'r gofynion arfer gorau	Nid yw unrhyw un o'r cwestiynau â seren wedi'u hateb yn anfoddhaol